



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

**Arholiad Aelodaeth Sylfaenol 4 Hydref 2008
Papur 2: Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Adroddiad y Prif Arholwr

Safodd 14 ymgeisydd (19 ym mis Ebrill 2008) yr arholiad am Aelodaeth Sylfaenol.

Llwyddodd 2 (7) a methodd 12 (12) – canran lwyddo o ryw 14% (37%).

Sylw cyffredinol

Siom oedd gweld mai lleiafrif go fach (rhyw 14%) o'r ymgeiswyr a lwyddodd i gyrraedd y safon angenrheidiol yn y rownd hon. Ond hyd yn oed ar lefel Aelodaeth Sylfaenol, mae disgwyl iddynt ddangos bod ganddynt afael eithaf cadarn ar eu crefft a thipyn o ddawn ar ben hynny.

Yr hyn sy'n peri syndod bron bob tro yw'r anallu i lunio brawddegau sy'n argyhoeddi fel brawddegau naturiol yn Saesneg. Canlyniad hynny yw bod y cyfieithiadau'n drwsogl eu mynegiant ac yn tarfu ar fwynhad y darllenydd.

Cyfeiria'r marcwyr at ddiffygion fel y rhain:

'... roedd llif naturiol y frawddeg yn diflannu wrth ei chyfieithu.'

'Roedd llawer iawn o'r cyfieithiadau yn eithaf llythrennol a dim naturioldeb yn perthyn iddynt. Mae hyn yn pwysleisio unwaith eto bwysigrwydd darllen neu fynd dros y cyfieithiad ar ôl ei gwblhau, ac ar lefel fwy cyffredinol, bwysigrwydd darllen yn helaeth yn Saesneg ac ymgyfarwyddo â gwahanol gyweiriau'r iaith.'

Cafwyd rhai cyfieithiadau da o ymadroddion fel 'tân siafins': rhagorai cynigion fel 'a flash in the pan' a 'forgotten and discarded' ar ymadroddion fel 'thrown onto the bonfire', 'ended up as fire shavings' a 'become so much kindling'

Gwaetha'r modd, dangosai ymadroddion bach eraill anallu'r ymgeiswyr i ysgrifennu Saesneg naturiol, e.e. rhoddwyd 'answer requirements' yn lle 'meet requirements' a 'satisfy the requirements' yn lle 'satisfy requirements' am 'ateb gofynion'. Yn y byd biwrocraidd sydd ohoni, mae meistroli ymadroddion fel y rheiny'n gwbl hanfodol.

Hen, hen gŵyn yw bod drysu rhwng 'its' ac 'it's'. Hyd yn oed ar y lefel fwyaf sylfaenol, byddai disgwyl i gyfieithwyr - o bawb - wybod y gwahaniaeth rhyngddynt. Ac ar ben hynny byddai disgwyl iddynt ddarllen y darnau gosod yn

ofalus iawn gan ymagweddu'n briodol o broffesiynol at y gwaith, hyd yn oed o dan bwysau arholiad. Drysodd dau ymgeisydd, er enghraifft, rhwng 'diwylliannol' a 'diwydiannol.'

Yn y cyfieithiadau mwyaf llwyddiannus, bu'r ymgeiswyr yn ddigon craff i newid trefn yr elfennau mewn ambell frawddeg er mwyn iddi ddarllen yn fwy naturiol. Hyd yn oed os nad oedd y cyfieithiad terfynol yn gwbl foddhaol, fe ddangosai fod y cyfieithydd wedi ceisio camu'n ôl ac ystyried y frawddeg gyfan cyn ei chyfieithu.

Hoffwn ddiolch o galon i'r marcwyr am eu trylwyrdd wrth farcio'r sgrïptiau ac i staff y swyddfa am eu gofal wrth weithredu'r holl broses arholi.

**Prif Arholwr (o'r Gymraeg i'r Saesneg)
Tachwedd 2008**